Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	27 Gorffennaf 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Cyng. Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid ac Adnoddau Strategol a'r Cyng. Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol / Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau, Moderneiddio a Lles.
Awdur yr Adroddiad	Shannon Richardson, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Adolygiad Camu Ymlaen Archwilio Cymru 2021 - 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Darparu trosolwg o adroddiad Camu Ymlaen Archwilio Cymru a'r ymateb rheoli dilynol. Mae'r adroddiad eglurhaol yn cyflwyno'r uchafbwyntiau o'r adolygiad, gan gynnwys ei gwmpas a'r canlyniadau allweddol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I nodi'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ar drefniadau'r cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu.

2.2. Nodi ymateb y rheolwyr sy'n ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y cynnwys a'r argymhellion yn adroddiad Camu Ymlaen Archwilio Cymru (Atodiad 1).

3.2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r camau a gytunwyd yn ymateb y rheolwyr (Atodiad 2).

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn ystod mis Rhagfyr 2021 i fis Chwefror 2022, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o'r modd y mae Cyngor Sir Ddinbych yn rheoli ei asedau a'i weithlu. Yn dilyn pandemig Covid-19, roedd yr adolygiad yn bwrw golwg ar y modd y mae'r cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid gwasanaethau, eu haddasu a dal i'w darparu, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid allweddol a chymunedau.

4.2. Ar gyfer asedau, y prif ganolbwynt oedd gofod swyddfa ac adeiladau y mae'r cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau i'r preswylwyr; ac o safbwynt y gweithlu, roeddent yn canolbwyntio ar yr heriau a nodwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai o faterion hir sefydlog y gweithlu.

4.3. Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn nodi bod y cyngor yn datblygu'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio, a fydd yn effeithio ar ei asedau adeiladau a'i weithlu, gan integreiddio eu gwaith ar hyn gyda strategaethau ehangach. Bydd edrych ymhellach tuag at y dyfodol yn cryfhau ystyriaeth y cyngor o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

4.4. Gwnaed nifer o gasgliadau allweddol yn yr adroddiad, fel a ganlyn:

- Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu ei strategaeth Ffyrdd Newydd o Weithio, ond nid yw wedi ymgorffori ei gynlluniau i gynllun rheoli asedau corfforaethol sy'n nodi'r dyfodol ar gyfer yr asedau adeiladau.
- Mae'r swyddogion, gyda chefnogaeth cynghorwyr, yn rhagweithiol wrth reoli asedau, er mae cyfleoedd i wella prosesau a chysondeb gwaith rheoli asedau ar draws y cyngor.
- Drwy gydol y pandemig, roedd uwch reolwyr a'r Aelodau Cabinet yn monitro effaith Covid-19 ar asedau adeiladau'r cyngor yn ofalus.
- Mae gan y cyngor drefniadau cynllunio'r gweithlu yn eu lle a bydd angen datblygu'r rhain ymhellach wrth iddynt lunio eu gweledigaeth ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol.
- Mae camau gweithredu'r cyngor o ran cynllunio'r gweithlu'n canolbwyntio'n bennaf ar 'nawr'. Nes ei fod wedi nodi anghenion y gweithlu ar gyfer y dyfodol nid yw'n gallu cymryd y camau gweithredu i'w darparu.

- Mae'r cyngor yn canolbwyntio ar ymdrin â'r heriau dydd i ddydd presennol ac nid yw wedi gosod ei gamau gweithredu hirdymor i fynd i'r afael â heriau parhaus y gweithlu.

4.5. Yn dilyn y casgliadau, roedd yr adroddiad yn gwneud pedwar argymhelliad a oedd angen ymateb gan y rheolwyr:

A1 - **Dysgu ar ôl y pandemig** - Ystyried dysgu a meysydd i'w gwella ar ôl y pandemig i hysbysu'r defnydd o asedau a'r gweithlu yn y dyfodol, lle bo'r pandemig wedi tynnu sylw at gyfleoedd o'r fath.

A2 - **Gweledigaeth** - Egluro gweledigaeth y cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau adeiladau a'r gweithlu yn fyr dymor, tymor canolig ac yn hirdymor.

A3 - **Strategaethau a Chynlluniau Cyflawni** - Datblygu strategaethau asedau a'r gweithlu a chynlluniau cyflawni sy'n ategu at yr hyn a ddysgwyd o brofiad y cyngor yn ystod pandemig Covid-19 a darparu gweledigaeth y cyngor yn y meysydd hyn.

A4 - **Strategaethau a chynlluniau cyflawni** - Nodi costau cyflawni'r cynlluniau hyn a'u hymgorffori yn y cynllun ariannol tymor canolig.

4.6. Mewn ymateb i'r Adroddiad, darparodd Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a Phennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo ymateb ar y cyd gyda mewnbwn gan swyddogion perthnasol (Atodiad 2). Roedd yr ymateb yn nodi bod cryn dipyn o waith ar y gweill eisoes i fynd i'r afael â'r argymhellion e.e. Strategaeth Asedau, prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio, Cynllun Gweithlu Corfforaethol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r dyddiadau cwblhau ar gyfer yr argymhellion yn amrywio o fis Hydref 2022 i fis Gorffennaf 2023.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw adroddiad Archwilio Cymru'n cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2017 i 2022. Wrth weithredu argymhellion yr adroddiad, bydd angen ystyried y Cynllun Corfforaethol nesaf 2022- 2027, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, mae Asedau a'r Gweithlu'n ddwy swyddogaeth allweddol yr ydym yn eu monitro bob chwarter o dan ein canlyniad

lechyd Corfforaethol sy'n sicrhau bod y cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn gynaliadwy'n amgylcheddol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol nac o ran adnoddau'n codi o'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o effaith ar les gan fod yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Archwilio Cymru - nid oes angen newid na phenderfyniad ar hyn o bryd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd yr adolygiad gyda'r swyddogion perthnasol a'r aelodau arweiniol ar draws gwasanaethau asedau a gweithlu'r Cyngor. Yn yr un modd, mae'r adroddiad ac ymateb y rheolwyr wedi'u datblygu gyda'r swyddogion a'r aelodau arweiniol hynny, ac fe geisiwyd adborth ar gynnwys yr adroddiad cyn ei gyhoeddi'n swyddogol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na ellir diwallu'r dyddiadau cwblhau arfaethedig, a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Ond, mae gwaith wedi dechrau ar y camau gweithredu hyn eisoes, gydag amserlenni yn eu lle i liniaru'r risg.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad.